



tud 3	tud 4 / 9	tud 5	tud 12
Pobl a Phethe	Ysgolion	Y Cerrig Hynod	Chwaraeon

Croeso i Rali Tal-y-bont 2013

Mae Rali Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion yn ddiwrnod pwysig yn rhaglen gystadlaethau aelodau'r mudiad ac yn uchafbwynt ar weithgareddau'r flwyddyn. Anfonwn groeso cynnes i ddarlennwyr Papur Pawb i Rali Talybont 2013 ar ddydd Sadwrn, 15 Mehefin a'u croesawu nôl i Fferm Berthlwyd ar ôl bwlch o ugain mlynedd. Dyma'r trydydd tro i'r rali ymweld â Berthlwyd ac mae Clwb Tal-y-bont yn hynod o ddiolchgar i David ac Elspeth Jones a'r teulu am eu cefnogaeth unwaith yn rhagor.

Mae'n siwr fod rhai ohonoch na fu'n aelodau o'r mudiad yn meddwl wrth ddarlenn hwn beth yn union yw Rali'r Ffermwyr Ifanc? Bydd dros ugain o glybiau gwahanol o ardaloedd ar draws Ceredigion yn cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn cyfres o gystadlaethau amrywiol ar thema benodol a thestun eleni fydd 'Y Celtiaid Ddoe a Heddiw'. Bydd y cystadlaethau yn cynnwys y sgiliau traddodiadol o Goginio,

Crefft, Gosod Blodau, Cneifio, Coedwigaeth a Barnu Gwartheg Duon, Defaid Torddu a Chobiau Adran D a bydd modd gwyllo'r aelodau yn perfformio mewn cystadlaethau eraill fel Dawnsio, Ras Siarlot Geltaidd ac Mae gan Celtwyr Dalent! Anrhydeddir Swyddogion newydd CFFI Ceredigion yn ystod y dydd hefyd mewn seremoni arbennig am 1 o'r gloch pan coroni'r Brenhines y Sir a chyflwyno ei phedair morwyn a Ffarmwr Ifanc y Flwyddyn. Dyma ddiwrnod allan delfrydol i'r teulu cyfan ac am bris mynediad rhesymol hefyd o £4 i oedolion a £1 i blant Ysgol Gynradd. Felly dewch i ymuno â ni am ddiwrnod arbennig llawn hwyl.

Yn goron ar weithgareddau'r dydd cynhelir Dawns y Rali ar Fferm Neuadd Fawr, Tal-y-bont gyda'r grŵp Newshan a'r DJ Huw Bry. Mawr yw ein diolch i David a Jennifer Evans a'r teulu am eu cefnogaeth ac mae'r croeso yr un mor gynnes i chi ymuno â ni gyda'r hwyr o 8 o'r gloch ymlaen.

Ie, nid breuddwyd mohoni bellach, ac yn dilyn y wythnosau prysur o baratoi a threfnu mae'r rali yn ei hôl am y seithfed tro yn Nhal-y-bont. Anfarwolwyd pentref Talybont flwyddyn yn ôl ond i ni am i chi gofio 2013 am resymau gwahanol ac yn bennaf am Rali gofiadwy.

Elgan Evans, Cadeirydd y Rali, Rhian Evans a Geraint Jenkins, Ysgrifenyddion y Rali.

Blwyddyn o Ofid a Chyfeillgarwch



i bawb a'u cynorthwyodd yn ystod y drychineb ac a fu'n gefn iddynt yn ystod y flwyddyn.

Dychwelodd yr olaf o'r teuluoedd i'w cartrefi yn ystod mis Ebrill. Yn ystod y flwyddyn bu'r dioddefwyr yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn cyfnwio gwybodaeth a chefnogi ei gilydd. Wrth i flwyddyn ers y llifogydd agosáu penderfynwyd mai priodol fuasai trefnu digwyddiad cyhoeddus unwaith eto, a ffrwyth y trafodaethau hynny oedd yr achlysur godidog a gynhaliwyd ar 7 Mehefin. Darparwyd lluniaeth blasus ac adloniant bywiog a thrwy ryfedd wyrth roedd y tywydd yn gwbl wahanol i'r stormydd a ddisgynnodd ar ogledd Ceredigion yr un adeg y llynedd.

Wrth sgwrsio gyda hwn a'r llall, ac wrth i'r trigolion lleol

hel atgofion ar y noson, roedd cyfuniad o deimladau yn amlgu pob sgwrs. Yn ymdoddi i'w gilydd roedd atgofion chwerv am ddigwyddiadau Mehefin 2012 a'r atgofion melyn o gyfeillgarwch a chymuned a ddaeth i'r amlwg wrth i'r ddyddiau a'r misoedd fynd heibio.

Yn ôl Arthur Dafis, ar ran y trigolion, "Roedd yn bleser gweld cymaint o bobl ar y Patshyn Glas nos Wener i nodi blwyddyn ers y llifogydd. I'r rhai ohonom ddioddefodd yn sgil y dilyw, ac a brofodd gymwynas cymuned ardal eang yn ystod y diwrnodau, yr wythnosau a'r misoedd wedi'r noson fyth-gofiadwy honno, roedd yn bwysig ein bod yn cael cyfle i gydnabod y gymwynas honno. A pha well ffordd o wneud hynny na chael cynnal barbeciwr mawr awyr agored ar ddarn o dir a oedd dan ddŵr bron i flwyddyn union yn ôl."

Tra bo'r dioddefwyr yn awyddus i ddiolch, ein lle ni yn ardal Papur Pawb yw diolch iddynt hwy am ddangos y fath ddewrder ac am ysbyrdoli ardal gyfan gyda'u nerth cymeriad.



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	832592 832438 832483 832498 832566 832230 832429 (01654) 781260 (01654) 781312
Maes-y-deri:		
Parsel Henllys:		
Bont-goch:		
Tre Taliesin:		
Tre'r-ddôl:		
Eglwysfach/Ffwrnais:		
Cadeirydd:	CYMEITHAS PAPUR PAWB Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Is-gadeirydd:	Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	832760
Ysgrifennydd:	Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832433
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgriafiadau:	Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais	(01654) 781312
Plygu'r Papur:	Gwenllian Parry-Jones; Tegwen Jones	
Dosbarthwyr:	Enid Gruffudd; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones	

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth Llywodraeth Cymru

Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Phil a Megan gyda Sion Pennant yn dylunio. Yn ôl ein harfer, ni fydd rhifyn yn ymddangos yn ystod y deufis nesaf ond bydd Papur Pawb ar werth unwaith eto ym mis Medi. Golygyddion y rhifyn hwnnw fydd Mair (mair.n@btinternet.com) a Beryl, gyda Ceri Jones yn dylunio. Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn Dydd Gwener, 6 Medi. Bydd y papur ar werth ddydd Gwener 13 Medi.

Sioe Corris 2013

Oherwydd anawsterau gydag adnewyddu safle arferol y Sioe yn Ysgol Gynradd Dyffryn Dulas. Corris, ni fydd y Sioe yn cael ei chynnal eleni. Fe fydd Sioe Corris 2014 yn cael ei chynnal ar y safle fel arfer.

Welwn ni chi yno!




Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur



papurpawb.com

Cymanfa Ganu Rali CFFI Ceredigion

yngh Nghapel Bethel, Tal-y-bont

Nos Sul, 16 Mehefin, 7.30 yh
Llywydd: Mrs Eirwen Hughes, Pencwm
Arweinydd: Peter Leggett
Artistiaid: Elen Thomas, Aelodau CFFI Tal-y-bont ac Aelodau Ysgol Sul, Bethel
Cyfeilydd: Catrin Jenkins
Mynediad trwy raglen: Oedolion - £4 a Dan 16 oed -£2

Apêl I Ffotograffwyr Lleol

Bydd Papur Pawb yn falch o dderbyn ffotograffau o Rali'r Ffermwyr Ifanc ar 15 Mehefin ar gyfer atodiad lliw arbennig fydd yn cael ei gyhoeddi gyda rhifyn Medi o'r papur. A wnewch chi felly gysylltu â'r golygydd cyffredinol drwy'r e-bost: golygydd@papurpawb.com, er mwyn iddo ddewis ffotograffau addas. Diolch.



EGLWYS ST. PEDR, ELERCH

GWIN, CAWS A CHÂN
CHEESE, WINE AND SONG

CÔR GORAU GLAS
Ensemble Taliesin
Artistiaid Lleol

NOS WENER, 28 MEHEFIN, 2013
FRIDAY, 28 JUNE, 2013
7.00 PM.

TOCYN: £7.00 / Plant: £2.00

Llywydd: Mrs Carys Briddon

Dyddiadur

Mehefin

- 16 Bethel 10 Undebol yn Soar, Llanbadarn Nasareth
Rehoboth 2 Parch Richard Lewis
Eglwys Dewi Sant 11 Boreol Weddi
- 16 Cymanfa Rali C.F.F.I. Ceredigion
Bethel, Tal-y-bont 7.30
- 17 Neuadd Goffa Merched y Wawr
Trefnu rhaglen 2013-2014 a 'Cadw dy afraid at dy raid' (Mererid Jones)

- 18 Cyfarfod Blynnyddol Papur Pawb
Neuadd Goffa 8
- 20 Neuadd Goffa Sefydliad y Merched
P'nawn yng ngofal y Llywydd
- 21 Cartref Tregerddan
Rhostio Mochyn 6.30
- 23 Bethel 5 Parch Terry Edwards
Nasareth Uno â Bethel
Rehoboth 10 Parch Terry Edwards
Eglwys Dewi Sant 11 Gwasanaeth Teuluol
- 28 Eglwys San Pedr, Elerch
Caws, Gwin a Chân 7
- 30 Bethel 10 Gweinidog (C) Nasareth
Rehoboth 2 Parch Judith Morris
Eglwys Dewi Sant
– Gwasanaeth Ordeinio Dr David Ceri Jones yn Eglwys Holl Saint, Llangorwen.

Gorffennaf

- 7 Bethel 2 Gweinidog
Nasareth 2 Bugail (C)
Rehoboth 5 Bugail (C)
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaid
- 14 Bethel 2 Parch Andrew Lenny
Nasareth Oedfa'r Ofalaeth
Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaid
- 17 Taith a Chyngerdd Cerddwn Ymlaen
- 18 Sefydliad y Merched
Ymweld â Felin Ganol, Llanrhystud
- 21 Bethel 10 Gwasanaeth Teulu

Nasareth

Rehoboth Trefniant Lleol
Eglwys Dewi Sant 11
Boreol Weddi

- 28 Bethel 10 Gweinidog (C) Nasareth
Rehoboth Trefniant Lleol
Eglwys Dewi Sant 11
Gwasanaeth Teuluol

Awst

- 4 Bethel 2 Gweinidog
Nasareth
Rehoboth 10 Parch Gordon Macdonald
Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid

- 11 Bethel
Nasareth
Rehoboth 10 Glyn Morgan
Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid

- 18 Bethel 6 Gweinidog
Nasareth
Rehoboth 10 John Hughes
Eglwys Dewi Sant 11
Boreol Weddi

- 25 Bethel 2 Irfon Evans (C)
Nasareth
Rehoboth 10 Beti Griffiths
Eglwys Dewi Sant 11
Gwasanaeth Teuluol

Medi

- 1 Bethel 10 Gweinidog
Nasareth 10 Uno â Bethel
Rehoboth 2 Gwyn Davies
Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaid

- 8 Bethel 2 Gweinidog
Nasareth 2 Bugail (C)
Rehoboth 10 Parch Elwyn Pryse
Eglwys Dewi Sant 11
Cymun Bendigaid

- 13 Ras yr Iaith ym ymweld ag ardal Papur Pawb.

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth,
Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Diolch

Dymuna Rhydian ac Eifiona, Glanaber Tal-y-bont ddiolch o galon am yr holl ddymuniadau gorau, y cardiau a'r rhoddion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch, Mari Heulwen ar yr 2ail o Ebrill 2013.

Gwellhad Buan

Anfonwn ein cofion at Gerald Roberts, 90 Maes-y-deri sydd bellach adref ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Treforys.

Hefyd i Marie-Neige, merch Christine a John Evans, Bryn Eleri, Tal-y-bont sydd yn gwella wedi cyfnod yn Ysbyty Bronglais ar ôl cael ei tharo'n wael.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn ag Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont ar ei phrofedigaeth, yn colli ffrind annwyl, Mr Islwyn Davies, Cwmllyn, Machynlleth.

Diolch

Dymuna Alan, Ann, Ceri a Gethin Trem-y-Ddôl, Bow Street ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Rhodri.

Cydymdeimlad

Estynnir ein cydymdeimlad diffuant iawn i Mrs Ffion Hatfield, Sŵn-y-gwynt, Bont-goch a'r teulu yn dilyn marwolaeth ddiweddar mam-gu Ffion, mam-yng-nghyfraith Phil, a hen-fam-gu Osian Llewelyn, sef Mrs Tegwen Breese, Comins-coch, Aberystwyth.

Penblwydd Hapus Iawn

Penblwydd hapus iawn iawn i Mair Rowlands, Erglodd, a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig ar 3 Mehefin. Hefyd i Linda Denton, Y Felin, Claire Fowler, Bron-y-Gân, Gwynfor Davies, Erw Lon, Betty Jenkins, Carregcadwgan, Arvid Parry Jones, Isallt, Cath Williams, Maes-y-deri a Gwen Hughes, Coetmor, Tal-y-bont, y cyfan yn dathlu penblwyddi arbennig iawn yn ddiweddar.

Cartref Newydd

Croeso cynnes i'n plith i Rhydian ac Elin sydd wedi ymgartrefu yn Dwyllan, Stryd Birkenhead, Tal-y-bont. Daw Rhydian yn wreiddiol o Gemaes

Pobl a Phethe



Llongyfarchiadau i Stevie-Rhiannon Crowther, merch Steve a Hazel Crowther, Tŷ Coets, Tal-y-bont, a chwaer Helygen, ar ei phriodas â Tyler Jason Clark Iantkow. Cafwyd dwy seremoni ym mis Mai, un yn Disneyland, Florida a'r llall yn Calgary, Alberta, Canada gydag ewythr i Tyler, Russell Walker, yn gwasanaethu. Cwrddodd y ddau tra'n gweithio ar gynllun cyfnewid diwylliannol Walt Disney ac maent wedi ymgartrefu yn Calgary lle mae'r ddau yn dal i weithio i'r cwmni. Dymunwn pob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol.

ac mae'n dechnegydd sain gyda'i gwmni ei hun, Sain Dyfi. Daw Elin o Abergele ac mae'n gweithio i'r Mudiad Meithrin.

Eisteddfod Aberystwyth

Llongyfarchiadau i Esther Ifan, Llys Alaw ar ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth llenyddiaeth Gymraeg oed uwchradd yn Eisteddfod Calan Mai, Aberystwyth.

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i'r holl dalentau lleol wnaeth sicrhau llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro, sef:

Betsan Siencyn, Tan-yr-allt, -aelod o barti deulais B7 – 9, Adran Tref Aberystwyth a ddaeth yn 1af.

Glain Llwyd, Tŷ Gwyn, Tal-y-bont – aelod o barti Cerdd Dant oedran cynradd, Adran

Tref Aberystwyth a ddaeth yn ail.

Catrin Huws, Henllan, Tal-y-bont ar ddod yn ail am farddoniaeth Blwyddyn 8.

Glain Llwyd, Tŷ Gwyn, Tal-y-bont a Tomos Jenkins Ffwrnais – aelodau o gôr oedran cynradd Adran Tref Aberystwyth a ddaeth yn 3ydd.

Sam Ebeneser a ddaeth yn 3ydd yn yr unawd o Sioe Gerdd.

Lois Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont ar ennill y 3edd wobwr gyda Grŵp Dawnsio Cymysg Penweddig.



Dyrchafiad

Llongyfarchiadau i Henry Lamb ar gael ei ddyrchafu'n Athro yn yr Adran Ddaearg, ym Mhrifysgol, Aberystwyth.

Swydd Newydd

Pob dymuniad da i Lynwen James, Bryn Eglur wrth iddi gychwyn ar ei swydd newydd yn Labordy'r Coleg yng Nghaint.

Priodas

Llongyfarchiadau i Ben Ceredig Fothergill, Minafon, Tal-y-bont a Rachel Bott ar eu priodas ym Molgolomen ddydd Sadwrn, 2 Mehefin.

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Raymond Smith, Dyfi Villa, Tre Taliesin ar ôl iddo gael llawdriniaeth yn Ysbyty Treforys yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mai Leeding, Glannant, Tre Taliesin ar siarad mor ddifyr mewn cyfweiliad ag Iola Wyn ar Radio Cymru 4 Mehefin am weithgareddau'r Chwirydd yn ddiweddar.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Becca Fleming-Jenkins, Dôl Pistyll, Tal-y-bont ar ennill 4 gwobr gyntaf, 3 ail ac un trydydd yn adran y dofednod yn y Sioe Wanwyn yn Llanelwedd, a hefyd yn sioe Aberystwyth ddechrau Mehefin.

Cymorth Cristnogol

Cyfanswm casgliad Cymorth Cristnogol ym mhlwyf Llangynfelyn eleni oedd £111. Roedd y trefniadau yng ngofal Olwen Rowlands, Carys Briddon ac Owen Jenkins.

Fferyllfa'r Borth

Llongyfarchiadau i Gary Jones a staff Fferyllfa'r Borth ar ennill tlws am y fferyllfa orau yng Nghymru ar gyfer 2013 yng ngwobrau'r diwydiant yng Nghaerdydd ym mis Mai.

Cartref Newydd

Croeso i Maret Parker sydd wedi symud i 3 Tan-y-coed, Tal-y-bont.

Sioe Tal-y-bont

Mae'r pwyllgor yn falch o fedru cyhoeddi fod swydd yr is-gadeirydd wedi ei llenwi erbyn hyn, gan Dafydd Jenkins, Tanyrallt.



Ysgol Tal-y-bont

Cyflwyniad y Cwis Llyfrau

Cwis Llyfrau

Llongyfarchiadau arbennig i ddisgyblion blynyddoedd 3 a 4 ar eu llwyddiant yn ennill rownd Ceredigion o'r Cwis Llyfrau am yr ail flwyddyn yn olynol – tipyn o gamp! Roedd y cyflwyniad o lyfr yn sôn am y wrach Ganthrig Bwt yn wefreiddiol. Dymuniadau gorau yng nghystadleuaeth Cymru. Diolch yn fawr iawn i Miss Sioned Morris am hyfforddi'r plant ac i Siôn

Pennant am ysgrifennu'r sgript. Da iawn chi - Oisín, Billy, Heledd, Glain, Nia, Emily, Seren, Libby, Eli, Becca, Cai ac Ynyr

Trawsgwlad

Cynhaliwyd dwy gystadleuaeth trawsgwlad yr Urdd yn ystod mis Mai; y gystadleuaeth rhanbarthol yng Nghlwb Rygbi Aberaeron ar ddechrau'r mis a'r gystadleuaeth traws gwlad cenedlaethol a gynhaliwyd ar Gaeau Blaendolau.

Yn Aberaeron Jac, Bedwyr, Gwydion, Cai ac Eli oedd yn cynrychioli'r ysgol. Roedd y pump wedi dod yn y deg cyntaf yn y gystadleuaeth i ysgolion ardal Aberystwyth a gynhaliwyd nôl yn yr hydref. Llongyfarchiadau mawr i Jac am ddod yn ail yn y ras i fechgyn Blwyddyn 6 ac i Cai ddaeth yn bedwerydd yn y ras i fechgyn Blwyddyn 3.

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion a fu'n cystadlu yn Aberystwyth yn ddiweddarach yn y mis hefyd. Da iawn Bedwyr, Penri, Dylan, Alex, Oisín, Cai, Ynyr, Libby a Becca. Llongyfarchiadau mawr i Jac am ddod yn agos iawn at y brig ar ôl rhedeg 2000 metr. Tipyn o gamp.



Gwydion, Cai, Bedwyr a Jac

Ynyshir

Ar ddydd Iau y nawfed o Fai, aeth disgyblion blwyddyn 3 a 4 Ysgol Tal-y-Bont i warchodfa natur RSPB Ynys-hir. Edrychom ni am drychfilod bach a phlanhigion gwahanol yn y goedwig gyda Jenny a gwelsom bethau rhyfeddol yn y pyllau dŵr.

Aethom i'r goedwig i hela am lythrennau i wneud geiriau ac aeth blwyddyn 4 i bysgota. Cipiodd Callum chwilen ddŵr a ffeindiodd Emily, Seren, Jade a Nia sglefriwr y ddŵr

Achos ei bod hi'n bwrw glaw arhosodd pawb yn y dderbynfa a chwarae gêmâu am gadwyni bwyd, wedyn cafodd blwyddyn 4 bêl o glai ac aeth pob grŵp allan i gasglu dail, brigau a cherrig. Gwnaeth pob grŵp anifail dychmygol. Roedd gan bawb lyfryn yn dweud pethau am yr anifail fel beth oedd e yn bwyta a beth oedd ei elyn.

Er gwaethaf y glaw di-baid, cafodd pawb amser da.

Diolch Monica a Jenny

Gŵyl Seiclo Aberystwyth

Dychwelodd un o brif rasys

seiclo gwledydd Prydain i Aberystwyth am y trydydd haf yn olynol ar ddydd Gwener 24 Mai. Roedd timau proffesiynol gorau'r wlad yno ac yn eu plith tîm o Ysgol Gymunedol Tal-y-bont. Llongyfarchiadau mawr i Gwydion, Dylan a Tomos am gystadlu mor frwd ac yn enwedig i Jac am ddod yn drydydd, yn enwedig o gofio nad yw'n aelod o unrhyw glwb seiclo lleol. Diolch i'r rhieni am gludo'r plant.

Rygbi

Bu mis Mai'n fis llwyddiannus iawn i Jac gan iddo gael ei enwebu'n chwaraewr y chwaraewyr gyda'i gyfoedion yn nhîm dan 11 Clwb Rygbi Aberystwyth.

Sefydliad Ymchwil y Galon

Llongyfarchiadau mawr i Miss Sara Morgan am lwyddo i gwblhau ras hanner marathon Caer ym mis Mai. Llwyddodd Miss Morgan i godi dros £2,300 ar gyfer yr elusen bwysig yma. Ond gair o rybudd i chi Miss Morgan – peidiwch â stopio ymarfer, rydym wedi eich enwebu i redeg Ras yr Iaith ym mis Medi!

Ymwelydd o Falawi

Ddiwedd mis Mai cafodd yr ysgol y fraint o groesawu Davie James Sande atom, yr ail athro o Ysgol Nkope Hill ym Malawi i ymweld â ni.


Er ei siwrnai hir, o'r eiliad y cyrhaeddodd roedd yn awyddus iawn i weld pob agwedd ar fywyd ysgol yma yng Nghymru, a manteisio ar unrhyw gyfle i gwrdd â phobl yr ardal a dysgu am ein hanes a'n diwylliant. "Gallaf gysgu ar ôl mynd yn ôl i Falawi!" meddai "Rwyf am fanteisio i'r eithaf ar y profiad amhrisiadwy hwn"

Cafwyd gwasanaeth arbennig iddo i'w groesawu i Ysgol Tal-y-bont lle bu'r plant yn canu, perfformio, dawnsio a chwarae offerynnau. Roedd wrth ei fodd yn gwrando ar y delyn am y tro cyntaf! Yna dangosodd luniau i'r plant o'i ysgol a'i deulu ym Malawi. Roedd hi'n agoriad llygad ei glywed yn sôn am ei ddosbarth o 75 o blant a phob un yn eistedd ar lawr, heb ddesgiau nac adnoddau o unrhyw fath.

Bu'n treulio amser mewn gwersi, yn cynorthwyo Mr. Jones gyda'r garddio, profodd brynhawn 'Cymreig' yn Ysgol Llanarth a bu'n ymweld ag Ysgolion Llangynfelyn a Chraig yr Wylfa.

Dwywedodd Davie ei fod wedi cael ymweliad gwerth chweil wrth ddysgu am ein dulliau ni o addysgu a chael profi'n ffordd o fyw. Ar y llaw arall, drwy'r bartneriaeth werthfawr hon mae disgyblion a staff Ysgol Tal-y-bont yn dysgu llawer mwy nag sy'n bosibl mewn unrhyw lyfr am un o gyfandiroedd mwyaf diddorol y byd. Edrychaf ymlaen yn arw i weld Davie eto pan fyddaf i'n ymweld â Malawi ym Mis Medi.

Diolch o galon i Llio Rhys a'r teulu am ddarparu llety a gofalu am Davie yn ystod ei ymweliad.



Davie James Sande

Cerrig Hynod Tal-y-bont

Mae carreg anghyffredin i'w gweld yng ngardd gefn Brooklyn, Tal-y-bont (cartref Gareth Norris a'r teulu erbyn hyn). Mae partneres iddi i'w gweld wrth dalcen isa'r Emporium. Mae'r ddwy yn weddol sgwâr ac wedi'u naddu o dywodfaen dybiwn i. Mae llygad haearn yn sownd ar un wyneb ar gyfer eu symud. Maent yno ers cyn cof i mi er na thelais lawer o sylw iddynt.

Cefais wybod gan y diweddar Mr Douglas Jones beth oedd hanes y cerrig. Roedd ef wedi byw y rhan helaethaf o'i oes yn Brooklyn ac roedd cysylltiad ei deulu â'r Emporium yn mynd yn ôl i'r tridegau. Mae'n debyg pan ailadeiladwyd y 'Bont Fach' yn 1935 bod yna graen yn cael ei ddefnyddio i godi rhannau trwm o'r bont. Pwrpas y cerrig (rhaid bod mwy na dwy i gyd) oedd cadw'r craen yn sefydlog. Rhag i'r peth fynd yn ben-drwm roedd gofyn am 'counter weights'. (Os oes gan un o ddarlennwyr Papur Pawb atgofion neu luniau o'r achlysur, cofiwch gysylltu. Gol.)

Wrth sôn am y bont fach, daeth erthygl yn rhifyn 1978 o'r cylchgrawn Ceredigion i gof, sef 'Bridge Inscriptions in Cardiganshire'. Honnir fod dros gant o bontydd yn y sir gyda rhyw fath o ysgrif arnynt.

Dyma'r rhai y sonnir amdanynt sydd o fewn ardal Papur Pawb.

Y Bont Fach dros y Ceulan yn Nhal-y-bont. 1935 gydag enw Thomas Edward Owen County Surveyor. Ail godwyd y bont eto yn 1990 pan ledwyd y ffordd. Ail osodwyd y garreg yn ei lle presennol ond nid lle'i rhoddwyd yn 1935. Tybed a yw'r Bont Fach yn awr yn fwy na'r Bont Fawr? Mae sawl adroddiad o'r gwaith i'w weld yn Papur Pawb 1990.

Y Bont Ddu ger ffald Penpompren. Y dyddiad 1932 wedi'i grafu yn y sment ger y bont. Mae hon eto wedi cael ei hail godi yn y



John Evans a Gareth Norris gyda'r garreg yng ngardd Brooklyn

blynyddoedd diwetha ac i fod cario pwysau lorïau o tua hanner can tunnell (hynny yw, os gallant gyrraedd y bont!).

Y Bont dros afon Leri ym Mont-goch 1929. Mae'r bont bresennol yn edrych llawer mwy modern na hyn.

Pont dros afon Cyneiniog tuag at Gapel Tŷ Nant 1930. Hon eto wedi cael ei hail godi.


Pont Brain dros y Cletwr yn Nhref'r Ddôl 1936. T.E.Owens oedd yr adolygydd ffyrdd erbyn hyn. Mae sawl enw wedi'i gerfio ar y garreg dros y blynyddoedd.

Eto ar y Cletwr sef ar y ffordd i Borth. Roedd y bont a godwyd yn 1900 wedi dymchwel mewn llif yn Awst 1973. Collwyd y placiau metel ar yr un pryd. Roedd hyn tua blwyddyn cyn geni Papur Pawb. Tybed oes gan rywun lun neu atgof o'r digwyddiad hwn?

Diddorol yw gweld ar yr hen bont yn Nhref'r Ddôl y boc postio llythyrau o Oes Victoria gyda'r llythrennau VR. Sawl un o'r rhain sydd ar ôl? (Credaf fod un yn Nol-y-bont.)

Mae sawl carreg i'w gweld gyda'r llythrennau CCC wedi'u plethu fel math o logo 'Cardiganshire County Council'. Cafodd ei addasu i 'Cwpaned Cyn Cychwyn' a chredaf i mi glywed am fersiynau llai parchus!

John Evans



Y garreg yng nghefn yr Emporiwm

FFRINDIAU CARTREF TREGERDDAN

Rhostio Mochyn

yn y Cartref

Nos Wener, 21 Mehefin 2013
am 6.30 o'r gloch

Pris 5.00

Croeso Cynnes i bawb

Noson Binc

Llew Gwyn, Tal-y-bont

29 Mehefin, 7yh

Ocsiwn • Raffl • 'Bush

Tucker Trials'

Elw tuag at Ymchwil Cancr
ac Ambiwylans Awyr Cymru



Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Cymorth Cristnogol Tal-y-bont

Casglwyd fel a ganlyn yn yr ardal gyfan:

Gwaelod y pentref (Lisa Tomos)	£127.01
Pensarn a Cwm Ceulan (Gwilym Jenkins)	£84.34
Stryd y Capel (Falyri Jenkins)	£200.87
Ardal Cynnullmawr (David Nutting)	£136.12
Pentref Tal-y-bont (Menna Morgan)	£124.04
Maes-y-deri (Lyn Ebeneser a Sue Jones Hughes)	63.04
Penlôn a'r Ffald (Bleddyn a Delyth Huws)	£119.52
Ardal Bontgoch (Geraint Evans)	£52.50
Parsel Henllys (Wendy Watkin a Janet Jones)	£89.66
Cyfanswm	£997.10

Hoffwn ar ran y pwyllgor Cymorth Cristnogol Tal-y-bont a'r Cylch ddiolch i bawb am eu rhoddion ac i'r casglwyr am eu gwaith diflino o flwyddyn i flwyddyn.

Janet Jones

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760



Lansio Nofel Newydd Geraint



Geraint Evans yn trafod ei nofel newydd, *Diawl y Wasg* gyda Lyn Lewis Dafis.

Mae cryn edrych ymlaen i ddarllen nofel dditectif newydd Geraint Evans, *Diawl y Wasg* (Y Lolfa) a lanswyd nos Wener, 7 Mehefin yn Llyfrgell Aberystwyth. Mewn sgwrs gyda Lyn Lewis Dafis ac wrth wrando ar ddarlleniad o'r nofel gan Jeremy Turner fe godwyd awydd arnom i ddarllen rhagor am y Ditectif Gareth Prior a'i dîm o Heddlu Dyfed-Powys wrth iddynt geisio datrys dirgelwch newydd.

Y tro hwn, llofruddiaeth perchennog un o brif weisg Cymru sydd o dan chwyddwydr CID Aberystwyth, ac achoswyd gryn ddifyrwrch wrth i'r gynulleidfa ddyfalu a oedd y cymeriadau yn y nofel wedi eu seilio ar unigolion go iawn!

Y llenor Meurig Selwyn yw perchennog Gwasg Gwenddwr, sydd, yn ôl pob tebyg mewn trafferthion ariannol, ac mae Meurig yn awyddus i werthu'r cwmni. At hynny, mae gan Meurig nifer o elynion, ac yn fuan ar ôl iddo draddodi beirniadaeth cystadleuaeth y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol caiff ei lofruddio yn ei gartref.

"Mae Meurig yn fflangellwr llenyddol ac nid yw'n poeni taten am hyn. Yn ben feirniad ar bawb a phopeth mae ganddo fyddin o elynion a rhaid i Inspector Prior a'i dîm ddyfalarhau a chwynnu'r rhestr hir o suspects i ganfod y llofrudd," meddai'r awdur, Geraint Evans.

Wrth i'r ymchwiliad i'r llofruddiaeth gael ei gynnal, mae nifer o gyfrinachau yn dod i'r wyneb, cyfrinachau ymysg cydweithwyr yn ogystal â rhai teuluol. Fe ddaw i'r amlwg bod gan nifer o bobl gymhellion i lofruddio Meurig, gan gynnwys ei chwaer Susan a gweddill staff y wasg – sydd yn eu tro yn dod o dan y chwyddwydr.

Pa ffordd well o ymlacio ar ddiwrnod braf o haf nag ymgolli yng nghwmni llyfr, a gyda nofel newydd Geraint yn taro silffoedd y siopau mewn da bryd ar gyfer y tymor gwyliau cofiwch bacio copi o *Diawl y Wasg* ochr yn ochr â'r eli haul.

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Talleis, MACHYNLLETH
Powys SY20 5JG Cymru

Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Clwb Nos Wener

Geraint Løvgreen a Myrddin ap Dafydd, oedd yn diddanu aelodau Clwb Nos Wener yn y Llew Du, yn ystod mis Mai. 30 mlynedd ers iddynt gyfansoddi Nid Llwynog Oedd yr Haul trefnwyd taith arbennig o gwmpas Cymru i ddathlu'r achlysur a braf oedd medru croesawu 'Dilyn y Llwynog' i Dal-y-bont. Cafwyd noson o gerddoriaeth rhagorol gan Geraint a'i fand, geiriau pob cân yn eiddo i Myrddin, yn ogystal â darlleniadau o rai o'i gerddi mwyaf grymus. Noson i'w chofio yng nghwmni eneidiau hoff gytûn, ac enghraifft wych o'r math o nosweithiau safonol a drefnir gan y Clwb Nos Wener.

EGLWYS DEWI SANT TALYBONT

Cynhelir Bore Coffi yn y
Neuadd Goffa, Talybont ar
fore Sadwrn, 28 Medi rhwng
10.30 a 12.00 o'r gloch
Tâl mynediad: £2.00;
plant am ddim
Raffl ac amryw o stondinau
Croeso cynnes i bawb

GLANHAU a SMWDDIO

Eisiau Help i Lanhaau eich Tŷ?
Eisiau Help i Smwddio?
Ffoniwch
01970 832643
neu 07732 384467

CYMDEITHAS PAPUR PAWB CYFARFOD BLYNYDDOL

Yn Neuadd Goffa Tal-y-bont
Nos Fawrth 18 Mehefin
am 8 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb



TAITH GERDDED MORLAN

dan ofal Mary a Rees Thomas
6.00, nos Fercher, 10 Gorffennaf
Cylchdaith o ryw 3 milltir ar hyd hen
lwybrau coedlannau Llandre – lan i
Gastell Gwallter ac yn ôl trwy'r Llywbr
Llên i Eglwys Llandre. Cofiwch wisgo
esgidiau addas!

Anogir pawb i rannu car. Os oes
gennych le yn eich car neu os ydych yn
chwilio am lifft rhwng wybod (01970-
617996; morlan.aber@gmail.com).
Ymgynnull erbyn 6 o'r gloch y tu allan i
Ysgoldy Bethlehem, Llandre.

Rhagor o ddigwyddiadau ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk

LLYFRAU LLAFAR CYMRU



www.llyfraullafarcymru.org

**DYMA WASANAETH GWIRFODDOL SY'N RHOI CYFLE I
DDEILLION A'R RHAI SY'N CAEL TRAFFERTH I
DDARLLEN PRINT GLYWED LLYFRAU CYMRAEG A
SAESNEG AM GYMRU AR CD NEU GASET.**

Mae na gannoedd a allai fod yn yn mwynhau ein
"llyfrau", "cylchgronau" a "phapurau bro".

Os gwyddoch am unrhyw un - ffoniwch 01267238225

Siarad Cyfrolau

Nodwyd yr hysbysed hon gan Gronfa Ray Gravel



ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor ar 20 Mai, gyda'r Cynghorydd Emyr Davies yn y Gadair.

Ethol Swyddogion ac Is-bwyllgorau

Y Cynghorydd Enoc Jenkins fydd Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2013/13 gyda'r Cynghorydd Bleddyn Huws yn Is-gadeirydd. Enwebwyd y Cynghorwyr Rhian Evans, Gerwyn Jones a Bleddyn Huws i wasanaethu ar yr Is-bwyllgor Ariannol, a'r Cynghorwyr Nest Jenkins, Emyr Davies a David Evans ar Is-bwyllgor y Fynwent. Bydd y Cadeirydd a'r Clerc hefyd yn aelodau o'r Is-bwyllgorau hyn yn rhinwedd eu swyddi. Cytunwyd i barhau â threfn y gorffennol, sef bod pob Cynghorydd yn aelod o'r Is-bwyllgor Cynllunio. Enwebwyd y Cynghorydd Gerwyn Jones i gynrychioli'r Cyngor ar Bwyllgor y Cylch Meithrin, ac ailenwebwyd y Cynghorydd Rhian Evans yn gynrychiolydd ar Bwyllgor Ardal Ceredigion o Un Llais Cymru.

Cyfrifon Ariannol 2012/13

Cyflwynodd y Clerc adroddiad o gyfrifon y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cyfanswm costau'r flwyddyn oedd £15,185.57. Y prif daliadau a wnaed oedd: Cymorthdaliadau, gan gynnwys £1,000 tuag at Gronfa Apêl Llifogydd Gogledd Ceredigion, a'r Neuadd Goffa (£5,710); Gweinyddol (£3,463); Cynnal a Chadw Eiddo'r Cyngor, gan gynnwys y Fynwent (£3,447); Yswiriant (£1,140) a Threth ar Werth (£658). Derbyniwyd y cyfrifon fel rhai cywir a chytunwyd fod y Cadeirydd a'r Clerc yn eu harwyddo.

Anerchiad y Cadeirydd

Cyn trosglwyddo'r Gadair i'w olynydd, cyflwynodd y Cynghorydd Emyr Davies rai sylwadau ynghylch ei dymor yn y swydd. Digwyddiad mwyaf y flwyddyn yn y gymuned, yn ddi-os, oedd y difrod a wnaed gan y llifogydd ar 9 Mehefin i 26 o gartrefi, yn bennaf yng ngwaelod pentref Tal-y-bont. Roedd y Cyngor wedi cyfrannu £1,000 yn uniongyrchol i Gronfa Apêl Arweinydd y Cyngor Sir, a chwaraeodd ran flaenllaw hefyd yn y gwaith o godi dros £8,000 i'r Gronfa mewn digwyddiad a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa ym mis Gorffennaf.



Un o feinciau newydd y Cyngor Bro yn cael defnydd teilwng

Ym mis Tachwedd, clywodd y Cyngor iddo fod yn llwyddiannus gyda'r cais am nawdd dan y Cynllun Balchder Pentrefi i ddarparu meinciau cyhoeddus ar y Patshyn Glas, hysbysfwrdd newydd o flaen y Neuadd Goffa, a chysgodfan bysiau newydd ym Maes-y-deri.

Ym mis Ionawr, cytunwyd i ddosrannu £4,000 i gymdeithasau a sefydliadau lleol, ynghyd ag elusennau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

I gloi, talodd y Cynghorydd Emyr Davies ddiolch diffuant i'r aelodau'r Cyngor ac i'r Clerc am wneud ei waith ef mor rhwydd, a dymunodd yn dda i'w olynydd, y Cynghorydd Enoc Jenkins.

Cyfarfod Mis Mai

Wrth esgyn i'r Gadair ar ddechrau cyfarfod mis Mai, a gynhaliwyd yn syth ar ôl y Cyfarfod Blynnyddol, talodd y Cadeirydd newydd, y Cynghorydd Enoc Jenkins, deyrnged i'r Cynghorydd Emyr Davies am ei wasanaeth fel Cadeirydd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Maes Chwarae i Bont-goch

Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i'r llythyr a anfonwyd gan y Cyngor Cymuned yn gofyn i Dŵr Cymru ystyried datblygu Maes Chwarae i blant fel rhan o'r estyniad i Waith Dŵr Bont-goch. Byrdwn eu hateb oedd mynegi eu bod yn awyddus, mewn egwyddor, i helpu sicrhau'r adnodd hwn.

Dargyfeirio Llwybrau/ Cilffyrdd Cyfyngedig

Nid oedd unrhyw wrthwynebiad gan y Cyngor Cymuned i ddargyfeirio cilffordd gyfyngedig a llwybr troed, a chreu llwybr troed newydd ar bwys Carreg Cadifor, Bont-goch, nac ychwaith i gynlluniau gan y Cyngor Sir i ddargyfeirio rhan o gilffordd cyfyngedig yng nghwm Ceulan, ar yr amod bod y Cyngor Sir yn derbyn sêl bendith y tirfeddianwyr.

Datganiad Ariannol 2012/13

Derbyniodd yr Aelodau Ddatganiad Ariannol Blynnyddol 2012/13, a rhoddwyd caniatâd i'r Cadeirydd a'r Clerc ei arwyddo yn unol â'r gofyniad statudol.

Ceisiadau Cynllunio

Adroddwyd fod y cais i godi ail dwrbîn gwynt ar dir Argoed Fawr wedi ei ganiatáu.

Cae Bach

Adroddwyd fod gwaith atgyweirio i'w wneud ar yr offer, a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir am amcangyfrif i gyflawni'r gwaith.

Cyflwr Ffordd

Derbyniwyd cwynion am gyflwr gwael wyneb y ffordd rhwng Brynhyfryd a Ffald Penpompren. Cytunwyd i anfon llythyr at y Cyngor Sir yn gofyn iddynt drefnu i'w hatgyweirio.

loga

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.
Pris £5.00
Cysylltwch a
Sue Jones-Davies
01970 624658

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459
Mob: 07967235687
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL





Gŵyl Flodau Eglwys Fach

Codwyd dros £900 i goffrau'r eglwys yng Ngŵyl Flodau Eglwys Fach

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Cyngor Cymuned Llangynfelyn ar nos Lun, 13 Mai. Penodwyd y Cynghorydd Adam Lewis yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Nigel Callaghan yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2013-14.

Dilynwyd y Cyfarfod Blynnyddol gan y cyfarfod misol i drafod yr ohebiaeth a dderbyniwyd a'r materion yn codi:

Cyflwynwyd adroddiad gan Nigel am yr hyn a drafodwyd yng nghyfarfod Rheoli Perygl Llifogydd Dyfi a fynychwyd ganddo.

Cafwyd adroddiad gan Guy yn dilyn y Cyfarfod Ymgynghorol gan Gyngor Ceredigion.

Derbyniwyd Strategaeth Gorfforaethol y Cynghorau Sir 2013/2017 ac Amcanion Gwella 2013/14, a nodwyd bod Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion wedi ei fabwysiadu.

Ymysg y materion yn codi roedd pryder ynglŷn â gwasanaeth bws sy'n dod i ben ar 27 Gorffennaf; sbwriel yn yr arhosfan gyferbyn â'r ysgol; baw cŵn ar y ffordd sy'n arwain tuag at Tan-yr-allt, Taliesin, a dod o hyd i gyfieithydd. Bydd y Clerc yn cysylltu â'r cyrff perthnasol ynglŷn â'r materion yma.

Derbyniwyd cais cynllunio adolygol ar gyfer newid defnydd yn Erglodd, Taliesin.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Lun, 10 Mehefin am 7.30 p.m.

Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn

Mae'r Gymdeithas yn mynd o nerth i nerth. Ym mis Ebrill cawsom sgwrs gan Gwyn Jenkins ar "O lethrau Moel Goch i ymyl y figyn ddwy ganrif yn ôl". Roedd yn ddiddorol clywed am helyntion heriwr a'i yrfa o fân droseddau a arweiniodd at y grobren yn Aberteifi.

Ym mis Mai daeth Archifydd y Sir, Helen Palmer atom i adrodd hanes sefydlu'r archifdy yn yr hen Swyddfa'r Sir a'r gwaith o'i symud i'w gartref newydd yn Neuadd y Dref. Roedd yn agoriad llygad i gael gweld yr ystod eang o adnoddau sydd i'w gael yno a sut i ddarganfod hanes cymunedau ac unigolion o'r deunyddiau hyn.

Yn ein cyfarfod nesaf byddwn yn croesawu Hefin Llwyd i sôn am hanes E. O. Jones, y ffotograffydd cynnar o'r fro. Croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod hwn, Mehefin 25ain am 7.30 yn Llanfach Taliesin.

Sefydliad Y Merched Tal-y-bont

Mae'r aelodau wedi mwynhau rhaglen ddiddorol yn ystod y gwanwyn. Ym mis Ebrill, Mary Turner Lewis o Amgueddfa Ceredigion oedd y siaradwr gwadd, ac fe ddangosodd ddetholiad o eitemau ffasiwn o hen gasgliad y diweddar Margaret Evans, 'Aberystwyth Ddoe'.

Talwyd ymweliad â Phlasty Nanteos lle cafwyd darlith hanesyddol, te prynhawn blasus a thaith o amgylch y tŷ a'r gerddi.

Ym mis Mai bu'r aelodau ar daith hynod o ddifrif o gwmpas y Llyfrgell Genedlaethol, lle gwelsant ffilm rhagarweiniol a lefarwyd gan Huw Edwards yn Y Drwm.

Yn olaf, llawer o ddiolch i aelodau Sefydliad y Merched Taliesin am y gwahoddiad i ymuno â nhw i glywed Dianne Smith yn cyflwyno lluniau a hanes yr 11 mlynedd y bu'n gweithio fel 'nanny' i blant un o dywysogion Saudi Arabia. Gwerthfawrogyd y lluniau a'r cofroddion yn fawr gan y gynulleidfa.

Merched Y Wawr Tal-y-bont A'r Cylch

Ar nos Lun, 20 Mai, aeth yr aelodau i'r Caban ym Mhontarfynach lle mae Sarah Bunton yn rhedeg ei busnes gwneud siocledi moethus. Sefydlodd Sarah ei busnes rai blynnyddoedd yn ôl mewn ystafelloedd uwchben caffi a siop anrhegion y teulu yn y Caban, ac eisoes mae wedi ennill gwobrau Great Taste a Gwir Flas am ei chynnyrch. Cawsom arddangosfa o sut mae'n gwneud y siocledi moethus, ac ar ôl mwynhau pryd o fwyd ardderchog, cawsom flasu'r siocled a wnaed ganddi ynghynt. Diolchwyd i Sarah a'i theulu am noson hyfryd gan Falyri Jenkins.

Llongyfarchwyd un o'r aelodau, Betty Jenkins, am ennill y wobr gyntaf am wneud gorchudd tebot yn yr Ŵyl Fai a gynhaliwyd yn Felin-fach ddechrau'r mis.

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

CYFIEITHYDD

Mae'r Cyngor yn edrych am berson i gyfieithu yn ein cyfarfodydd misol – o'r Gymraeg i'r Saesneg. Os oes gennych ddiddordeb, ac yn berchen ar offer cyfieithu, cysylltwch â'r Clerc am fanylion pellach:

Y Clerc
Cyngor Cymuned Llangynfelyn
Blaenddôl
Tre'r-ddôl
Machynlleth
SY20 8PL
07835742183



Ysgol Llangynfelyn

Yn Siop Cynfelyn

Siop Cynfelyn


Cerddodd phlant a staff yr ysgol lawr i Siop Cynfelyn ar brynawn cyntaf agoriad y siop. Cafwyd cyfle i edrych o gwmpas y siop a'r caffi a chael diod a bisged hyfryd. Bu'r plant yn tynnu lluniau o fwydydd a diodydd gyda Morgan Tomos a bydd rhain yn addurno rhannau o'r siop. Gobeithiwn byddwn yn medru meithrin perthynas agos gyda'r fenter gyffrous yma yn y dyfodol.

Clwb Garddio

Mae'r Clwb Garddio wedi ail-ddechrau ar ôl gwyliau'r Pasg. Bu'r plant yn edrych ar gatalogau hadau ac yn cynllunio pa lysiau hoffent dyfu yn yr ardd. Maent wedi plannu'r hadau yn barod a gobeithiwn gael llysiau ffres i werthu a bwyta cyn hir



Plannu'r ardd



Steffan, Seamus ac Elijah ar y beiciau

Rasys Beicio Aber Cycle Fest


Ar brynawn gwyntog cyn y gwyliau Hanner Tymor, aeth 11 o blant Blynnyddoedd 4 i 6 i'r Prom yn Aberystwyth i gymryd rhan yn rasys beicio 'Aber Cycle Fest'. Roedd llawer iawn o blant o ysgolion cynradd eraill yn cymryd rhan ac roedd y Prom yn llawn plant a rhieni. Bu llawer o'r plant yn llwyddiannus yn y cystadlu gydag amryw yn dod yn y 10 cyntaf yn eu ras. Llongyfarchiadau arbennig i Ben Phillips am ddod yn drydydd yn y ras i fechgyn Blwyddyn 4 ac i Ruby Indeka am ddod yn ail yn y ras i ferched Blwyddyn 4. Adiwyd amseroedd yr unigolion at ei gilydd a daeth merched Blwyddyn 4 yn ail fel tîm allan o ferched Blwyddyn 4 yr holl ysgolion. Da iawn chi ferched!

Bio-sffêr Dyfi

Derbyniodd yr ysgol nawdd gan Bio-sffêr Dyfi i fynd ar ymweliad i'r RSPB yn Ynyshir. Daeth Monica a Jenny, swyddogion addysg yr RSPB, i'r ysgol i siarad gyda'r plant hŷn am y warchodfa cyn gwneud gwaith ar gynefinoedd. Ar ddiwrnod yr ymweliad aeth y plant gyda phlant Ysgol Craig yr Wylfa i Ynyshir i wneud amryw o weithgareddau am anifeiliaid a'u cynefinoedd. Mwynhaodd y plant edrych am drychfilod bach yn y ffosydd a'r gwair hir cyn mynd am dro o gwmpas y warchodfa.

Amgueddfa Ceredigion

Aeth Ffion a Seren, ein disgyblion Blwyddyn 6, i Amgueddfa Ceredigion i gymryd rhan mewn gweithdy Pontio Blwyddyn 6/7. Thema'r pecyn pontio eleni yw 'Byd y Ffilm'. Bu'r ddau yn dysgu am hanes sinema a theatr y Coliseum a gwyllo ffilm 'Tom and Jerry' a gynhyrchwyd yn 1940. Ail-ran y bore oedd gweithdy animeiddio gyda cyn-riant o'r ysgol, Jim Elliott, yn ei gymryd. Mwynhaodd Ffion a Seren yn fawr iawn a byddant yn gwneud mwy o waith allan o'r pecyn yn yr ysgol ac ym mis Medi yn Ysgol Penweddig. Dymunwn pob lwc i'r ddau yn Ysgol Penweddig a byddwn yn eu colli yma yn Llangynfelyn.



Digwyddiadau Tymor yr Haf

Mabolgampau - Dydd Iau Mehefin 27ain am 1yp. Dewch i weld y plant yn cystadlu a bydd hufen-iâ, te, coffi a chacennau ar werth. Os bydd hi'n wlyb, byddwn yn ceisio eto'r diwrnod canlynol.

Barbiciw - Dydd Iau Gorffennaf 4ydd o 6yh tan 8yh. Bydd amryw o stondinau, gêmiau, raffl, adloniant gan fand lleol ac wrth gwrs digonedd o fyrgyrs. Tocynnau ar werth ar y giât.

Cymwynas Hugh Rees

Un o feibion Eglwysfach oedd Hugh Rees (1864-1935), ond bu'i wraig Jane Elizabeth (o Dal-y-bont – dychwelodd yno wedi colli'i gŵr a marw ym 1951 yn 82 oed) ag yntau yng nghymoedd Morgannwg am gyfnod. Credaf mai yno ym Mlaenclwyd y daethant yn gyfeillgar gyda Tom Jones o Dre-fach Felindre, a'i wraig Ellen – 'Nel Fach y Bwcs', a faged am gyfnod ym Matagonia. Roedd mab Tom a Nel, William John, a'i wraig, Marged Lloyd Jones (yr awdur a chyn Lywydd Anrhydeddus Merched y Wawr) yn gyfeillion cefnogol i mi ac ar ôl i W.J. farw cyflwynodd Marged lyfr hynod ddiddorol o waith Hugh Rees 'Dyfi View', Eglwysfach imi. Roedd Elizabeth ei wedd wedi rhoi'r llyfr i Nel Fach y Bwcs wedi'i farw.

Mae'r llyfr sy'n gofnod hanesyddol o bwys yn croniclo 'Traddodiadau a Proffwydoliaethau Eglwysfach', mewn 251 pennill, 8 llinell, yn llawysgrifen yr awdur, gyda 130 arall yn manylu ar

'Enwau y sawl oedd yn byw yn ffermdai a thai Plwy Sgyborcoed tua 1880', ac yn cynnwys enwau'r gweinidogion

a faged yn yr ardal a'r pregethwyr cynorthwyol. Er nad bardd mo Hugh, ond rhigymwr, oedd yn cael trafferth gydag chystrawen ac odl, ei gamp oedd cyflwyno cymaint o hanes gwerthfawr plwyf mwyaf gogleddol Ceredigion inni. Wedi cychwyn drwy'n gwahodd i'w ddilyn hyd yr ardal mae'n cyfeirio at 'Yr hen Ysgybor Ddegwm fawr sydd rhwng tri a phedwar cant oed' -

Ni chafwyd ar ei choedydd
Ond hoelion coed bob darn,
Ac yma roedd y Sgybor
Cyn dydd yr hoelion harn.

O'r sgybor i'r odyn a'r
ffwrnes -

Yn olion yr hen 'Kelin
Fe doddwyd yma blwm
A gariwyd gan asynod,
Dros lwybrau cul y cwm...

Y gred yw fod holl fwynoedd
O bob cymdogaeth bron.

Yn dod i gael eu toddi
O fewn y 'Ffurnace' hon.

Wrth edrych ar yr olion
Roedd ynddi nerthol wres

Yn toddi haearn caled,
Heb law y plwm a'r pres.

Daeth llawer o Wyddelod
Mewn llongau dros yr aig
Tua'r ail ar bymtheg ganrif
I godi'r mwyn o'r graig.

Cerddwn Ymlaen i Godi Arian at yr Ambiwylans Awyr

Mae Cerddwn Ymlaen yn daith gerdded 200 milltir ar draws Cymru yn cael ei arwain gan y tenor rhyngwladol o Gymru, Rhys Meirion. Yn 2012 arweiniodd Rhys saith o gerddwyr ar draws Cymru mewn with diwrnod. Codwyd dros £91,000 i Ambiwylans Awyr Cymru. Eleni bydd 15 o gerddwyr yn ymgymryd a'r daith.

Dewch i gefnogi Rhys a'i gyd gerddwyr ar eu taith trwy ogledd Ceredigion.

Ar fore Dydd Mercher y 17 Gorffennaf mi fydd y criw yn cychwyn o sgwâr Glyndwr, Aberystwyth am 10.25 ac yn cerdded Llwybr yr Arfordir i'r Borth.

Cyrraedd Y Borth tua 12.40.
Talielin tua 14.50



Treddol tua	15.05
Furnace tua	15.55
Eglwysfach tua	16.05
Derwenlas tua	17.20
Ysgol Bro Ddyfi tua	17.55

Ar nos Fercher y 17eg mi fydd cyngerdd yn a Tabernacl, Machynlleth gyda Piantel, Cor Gore Glas, Cor Aelwyd Bro Ddyfi a Trystan Llyr Griffiths. Tocynnau ar gael gan Dennis Jones ar 01654 761500 neu y Tabernacl ar 01654 703355. Os ydych am gerdded neu gyfrannu mae mwy o fanylion i'w cael ar wefan Cerddwn Ymlaen.

Sonnir am borthladd prysur ger fferm y Garreg lle deuai 'llogau i gyrchu'r 'ore', cyn ychwanegu pennill diddorol: -

Mae olion digamsymiol,
A gellir bod yn siŵr
Fod 'Canal' yn bodoli
A hwnnw'n llawn o ddŵr,
O'r 'Domenlas' i fyny,
Pa un sydd heddiw'n glir
Mor bell a ffrwyd y 'Ffurnace'
Trwy ddolydd Ynyshir.

Mae Hugh yn dweud fod cychod yn cael eu tynnu gan ychain a gerddai ben y clawdd, yn cario'r mwyn a doddwyd o'r Ffwrnes heibio'r Cei dan y

Castell ac i borthladd y Garreg.

Diddorol yw ei ddisgrifiadau o felinau'r ardal oedd yn malu ceirch a gwenith ac mae'n enwi tair – Melindwr, Dyfi Banc a Felingerrig, gydag adeilad arall gerllaw:

Roedd Ffactri fawr ac enwog
Gwneid 'Myglys' yn lled rhad,
Ac nid oedd ei rhagorach
Mewn un lle yn y wlad.

Gan mai dim ond cyrraedd pennill 43 o'r 381 sydd yn y llyfr a wneuthum bydd raid dychwelyd at yr hanes yn fuan.

W.J.E.

Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278

www.davmorgarage.co.uk

Garej Paul Joseph

01970 822220

Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrwsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrwsio MOT



Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre



Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774

Elin Jones AC - O'r Cynulliad

Rwy' wastad wedi credu ei fod yn bwysig i'r Cynulliad – ac i wleidyddion yn gyffredinol – gynnig gymaint o ffyrdd â phosib i aelodau o'r cyhoedd i gysylltu gyda nhw. Dyna pam rwy'n cyhoeddi bwletinau newyddion dros ebost (cysylltwch ag Elin@Elinjones.com os y'ch chi am wybod mwy), ac hefyd un o'r ffyrdd mwyaf arloesol sydd gan y Cynulliad nawr yw'r Pwyllgor Deisebau. Sefydlwyd hwn yn 2011; gellir casglu deiseb ar unrhyw bwn sy'n dod o dan gyfrifoldeb y Cynulliad, a dim ond 10 llofnod sydd ei angen er mwyn i'r ddeiseb gael ystyriaeth. Mae'r gyfundrefn erbyn hyn yn cael ei efelychu mewn seneddau eraill ar draws Ewrop.



Os edrychwch ar wefan y Cynulliad, mi welwch fod deisebau ar ystod eang o bynciau, o addysg i blant byddar i'r diwydiant llaeth. Mae modd hefyd cyflwyno deisebau ar bynciau lleol, ac yn ddiweddar bu'r Pwyllgor yn clywed gan grŵp sydd am wella safon tai myfyrwyr Aberystwyth a phobl sy'n poeni am ddiogelwch ffyrdd ym Mlaenporth. Yn fuan byddant yn trafod achos siopwyr yn ne Ceredigion sy'n pryderu am drethi busnes. Gall fod yn ffordd dda o godi ymwybyddiaeth y Llywodraeth o bwnc, ac mae rhai deisebau wedi bod yn llwyddiannus wrth newid polisi. Felly os oes rhywbeth yn eich poeni yn eich cymuned leol, mae croeso i chi gysylltu gyda mi am gyngor ar sut i godi pwnc yn y modd yma.

Rwy' hefyd yn ceisio cynnal gymaint o gymorthfeydd â phosib. Rwy'n eu cynnal yn rheolaidd yn y prif ganolfannau fel Aberteifi, Aberaeron, Aberystwyth, Llambled, Llandysul a Thregaron, ond hefyd rwy'n ymweld â llefydd eraill. Mis yma, rwy' wedi bod ym Mhontrhydfendigaid, ac ym Mydroilyn, lle bues i a'r cynghorydd lleol yn gwrando ar bryderon pobl am drafftig a materion eraill. Os y'ch chi am i fi alw yn eich cymuned chi, ebostiwrch Elin@Elinjones.com.



Storfa Canolbarth Cymru

STORFA DODREFN

STORFA FUSNES ARCHIFAU

STORFA I FYFYRWYR

PACEDU

**DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV
WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS**

www.midwalesstorage.co.uk
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
Ffôn: 01654 703592

argraffu da
am bris da



y/Lolfa

holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

Y Gair Olaf



Gyda bywyd yn mynd yn brysach bob dydd, mae'n anodd iawn gwerthfawrogi ein milltir sgwâr, a gwerthfawrogi pethau syml bywyd. Mae yna ddywediad sy'n dweud "fod rhai pobl yn gweld mwy wrth gerdded 'rownd y bloc' na mae rhai yn gweld mewn trip o amgylch y byd." Mae'r dywediad yma yn wych i grynhoi meddylfryd ffotograffydd, lle mae pobman yn gyfle am lun.

Mae gan ffotograffiaeth lawer i'w gynnig, yn enwedig yn ein gwlad brydferth ni. Mewn tywydd garw neu ar ddiwrnod braf, mae yna gyfle i dynnu llun da, a chyfle i ddal moment arbennig ar gamera, gan fod pethau gorau bywyd yn digwydd yn aml ar yr adegau mwyaf annisgwyl. Mae natur yn rhyfeddol, mae yna olygfa newydd ymhobman ac onglau newydd bob cam.

Yn aml, mae pobl yn mynd am dro i glirio eu pennau ond mae eu meddyliau yn dal yn brysach yn meddwl am eu gwaith ac nid ydynt yn edrych o'u cwmpas i weld beth sydd o'u hamgylch. Dwi'n credu bod hyn yn wael oherwydd fod angen i ni ddianc o'n byd bach ein hunain ac edrych a gwerthfawrogi'r byd o'n hamgylch. Mae cario camera yn aml yn help inni wneud hyn.

Mae ffotograffiaeth, yn ogystal â rhoi perspectif gwahanol ar fywyd, yn ffordd wych o gyfathrebu, gan fod lluniau yn fwy pwerus na geiriau. Mae lluniau yn gallu dangos awyrgylch, teimlad a safbwyntiau. Gallant wneud i chi ymlacio, gwneud i chi feddwl, a'ch ysbrydoli, ac fe all y lluniau yma i gyd fod yn eich milltir sgwâr, ond i chi edrych yn y lle cywir ar yr adeg cywir. Y camera gorau yw'ch llygaid. Felly, y tro nesaf yr ewch am dro, edrychwch o'ch cwmpas a phwy a wŷr pa beth newydd neu arbennig welwch chi.

Eilir Huws

Bistro
Gannets



Bwyd a Gwin Da

7 St James Square, Aberystwyth

617164

Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.

Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth,
Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659



Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion
i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn/Phone: 01545 574187 E-bost: cis@ceredigion.gov.uk
Gwefan: http://cis.ceredigion.gov.uk
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron,
Ceredigion, SA46 0PA

Chwaraeon

Llwyddiant ar y Cwrs Golf

Mae golffwyr da (ac ambell un clwc!) yn byw yn ardal Papur Pawb, a daeth llwyddiant arbennig i ddau ohonynt mewn cystadlaethau ar gwrs Borth ac Ynyslas yn ddiweddar. Enillwyd Cwpan Gidley Wright (cystadlaeth Greensome) gan Daniel Basnett o Bont-goch ac Elgan Griffiths o Daliesin ac, ynghyd â Dylan Raw-Rees, enillodd y ddau Dllws Duxbury Williams (cystadlaeth Texan Scramble). Elgan hefyd oedd enillydd Cwpan Paterson (cystadlaeth Stableford). Rhaid bod priodi wedi gwneud lles i'w golf!



Daniel Basnett ac Elgan Griffiths gyda'u tlysau

Colli yn y Ffeinal



Cafwyd perfformiad digon boddhaol gan dîm pêl-droed Tal-y-bont ar faes Bow Street yn rownd derfynol Cwpan Cynghair Aberystwyth a'r Cylch (ail adran), ond nid oedd hynny'n ddigon i guro Trawsgoed. Trawsgoed yw

pencampwr yr Ail Adran ac yn ystod y tymor llwyddont i guro Tal-y-bont ddwywaith ac ar noson wlyb ac oer ar 14 Mai, roedd y bechgyn o ddyffryn Ystwyth (a Gwlad Pwyl!) yn rhy gryf unwaith eto.



Dylan Hughes yn penio'r bêl

Yn anffodus roedd rhai o chwaraewyr gorau Tal-y-bont yn absennol oherwydd anaf, gwaharddiad neu alwad arall, ond cafwyd ymdrech cant y cant gan y rhai a ddaeth i lenwi'r bylchau. Roedd yn bwysig peidio ildio goliau cynnar ond o fewn hanner awr roedd Trawsgoed wedi rhwydo tair gôl a phrin bu bygythiad Tal-y-bont o flaen y gôl yn ystod y cyfnod hwnnw. Gwelodd y perfformiad yn yr ail hanner gyda Mike Putt yn penio gôl dda ond erbyn y diwedd roedd Trawsgoed yn fuddugol, 4-1.

Adolygiad

A wyddech chi mai *Y Penwaig* yw llysenw Clwb Pêl-droed Nefyn a bod sawl clwb, yn ogystal â Bow Street, yn arddel yr enw *Y Piod*? Mae sawl ôl-ddodiad anghyffredin i glybiau hefyd megis y *Tregaron Turfs*, gan fod y clwb hwnnw yn chwarae ar gyrion Cors Fochno. Mae enwau rhyfedd i ambell i dîm hefyd fel y *Barracudas*, tîm o Benparcau o gyfnod yr 1960au, a gafodd yr enw oherwydd hoffter rhai o'r chwaraewyr o feiciau modur o'r un enw.



Richard Huws

Mae hanes tarddiad yr enwau hyn a mwy i'w gael yn llyfr newydd yr awdur o Bont-goch, Richard Huws, *Tŷ Gwyn*. Teitl ei lyfr, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yw *The Football and Rugby Team Nicknames of Wales*, olynnydd teilwng i'w gyfrol flaenorol *The Football and Rugby Fields of Wales* a gyhoeddwyd yn 2009.

Fel un a fu ar staff y Llyfrgell Genedlaethol am flynyddoedd lawer, mae Richard yn adnabod y ffynonellau yno'n dda ond mae'n amlwg hefyd ei fod wedi holi hwnt ac yma am wybodaeth ychwanegol am glybiau mawr a bach Cymru. Cyfrol fer ond hynod ddifrif yw hon ac mae ar werth am £7.95.

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129

07761 917235

DYMA FI .TV

WYT TI RHWNG 13 - 18?

Oes gen ti un o'r rhain?

📱 📺 🎥 🎬 🎮

**Ffilmia dy fywyd ar
Ddydd Sadwrn, 22 Mehefin**

Am fwy o wybodaeth a lle i
anfon dy fideo, cer i DymaFi.tv

Bydd y fideos i gyd yn cael eu rhoi ar y wefan
a bydd rhai yn cael eu dangos ar S4C.

WWW.DYMAFI.TV

S4C, BBC, BBC Wales, BBC Cymru, BBC News, BBC Sport, BBC Wales Sport, BBC Wales News, BBC Wales Today, BBC Wales Today Extra, BBC Wales Today Extra 2, BBC Wales Today Extra 3, BBC Wales Today Extra 4, BBC Wales Today Extra 5, BBC Wales Today Extra 6, BBC Wales Today Extra 7, BBC Wales Today Extra 8, BBC Wales Today Extra 9, BBC Wales Today Extra 10, BBC Wales Today Extra 11, BBC Wales Today Extra 12, BBC Wales Today Extra 13, BBC Wales Today Extra 14, BBC Wales Today Extra 15, BBC Wales Today Extra 16, BBC Wales Today Extra 17, BBC Wales Today Extra 18, BBC Wales Today Extra 19, BBC Wales Today Extra 20, BBC Wales Today Extra 21, BBC Wales Today Extra 22, BBC Wales Today Extra 23, BBC Wales Today Extra 24, BBC Wales Today Extra 25, BBC Wales Today Extra 26, BBC Wales Today Extra 27, BBC Wales Today Extra 28, BBC Wales Today Extra 29, BBC Wales Today Extra 30, BBC Wales Today Extra 31, BBC Wales Today Extra 32, BBC Wales Today Extra 33, BBC Wales Today Extra 34, BBC Wales Today Extra 35, BBC Wales Today Extra 36, BBC Wales Today Extra 37, BBC Wales Today Extra 38, BBC Wales Today Extra 39, BBC Wales Today Extra 40, BBC Wales Today Extra 41, BBC Wales Today Extra 42, BBC Wales Today Extra 43, BBC Wales Today Extra 44, BBC Wales Today Extra 45, BBC Wales Today Extra 46, BBC Wales Today Extra 47, BBC Wales Today Extra 48, BBC Wales Today Extra 49, BBC Wales Today Extra 50, BBC Wales Today Extra 51, BBC Wales Today Extra 52, BBC Wales Today Extra 53, BBC Wales Today Extra 54, BBC Wales Today Extra 55, BBC Wales Today Extra 56, BBC Wales Today Extra 57, BBC Wales Today Extra 58, BBC Wales Today Extra 59, BBC Wales Today Extra 60, BBC Wales Today Extra 61, BBC Wales Today Extra 62, BBC Wales Today Extra 63, BBC Wales Today Extra 64, BBC Wales Today Extra 65, BBC Wales Today Extra 66, BBC Wales Today Extra 67, BBC Wales Today Extra 68, BBC Wales Today Extra 69, BBC Wales Today Extra 70, BBC Wales Today Extra 71, BBC Wales Today Extra 72, BBC Wales Today Extra 73, BBC Wales Today Extra 74, BBC Wales Today Extra 75, BBC Wales Today Extra 76, BBC Wales Today Extra 77, BBC Wales Today Extra 78, BBC Wales Today Extra 79, BBC Wales Today Extra 80, BBC Wales Today Extra 81, BBC Wales Today Extra 82, BBC Wales Today Extra 83, BBC Wales Today Extra 84, BBC Wales Today Extra 85, BBC Wales Today Extra 86, BBC Wales Today Extra 87, BBC Wales Today Extra 88, BBC Wales Today Extra 89, BBC Wales Today Extra 90, BBC Wales Today Extra 91, BBC Wales Today Extra 92, BBC Wales Today Extra 93, BBC Wales Today Extra 94, BBC Wales Today Extra 95, BBC Wales Today Extra 96, BBC Wales Today Extra 97, BBC Wales Today Extra 98, BBC Wales Today Extra 99, BBC Wales Today Extra 100.

Gŵyl Pêl-droed Talybont

Maes Chwarae, Cae'r Odyn Galch, Talybont a'r Cylch

Dewis Lwcus £1 yr un Gwobrau | £100 | £50 | £25
Bydd bwyd ar gael ar y maes

Dan 7 | Dan 9 | Dan 11

Dechrau 10am

Oedolion £1

22/6/13

